# Y Pwyllgor Menter a Busnes
# Dinas-ranbarthau

## Y Cefndir

1. Mae dros 300 o ddinas-ranbarthau ledled y byd sydd â phoblogaethau o fwy nag un filiwn. Mae gan o leiaf ugain dinas-ranbarth boblogaethau o dros ddeng miliwn. Maent yn amrywio o grynodrefi metropolitanaidd sydd â chraidd datblygedig amlwg, megis rhanbarth Llundain neu ddinas Mecsico, i unedau daearyddol sydd â nifer o ganolfannau, fel y gwelir yn rhwydweithiau trefol Randstad neu Emilia-Romagna.

2. Sefydlais y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-ranbarthau yn Hydref 2011 o dan gadeiryddiaeth y Dr Elizabeth Haywood, i ystyried a fyddai hon yn ffordd briodol o fynd ati i hyrwyddo datblygu economaidd yng Nghymru. Canfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-ranbarthau fod gan Gymru draddodiad cryf o aneddiadau wedi eu seilio ar fasnach a diwydiant, a oedd wedi cysylltu Cymru â'r byd ehangach. Arweiniodd datblygiad diwydiannol ledled Cymru o ail hanner y ddeunawfed ganrif ymlaen at fwy o dwf trefol. Mae datblygiad llawer o'n dinasoedd wedi digwydd o ganlyniad i ddatblygiad diwydiannol Cymoedd y De.

## Adroddiad Annibynnol ar Ddinas-ranbarthau

3. Cyhoeddais adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-ranbarthau ar 11 Gorffennaf 2012. Roedd 22 o argymhellion yn yr adroddiad.

4. O safbwynt y negeseuon cyffredinol, roedd yr adroddiad yn dweud o'r cychwyn cyntaf y dylid mabwysiadau'r dull Dinas-ranbarthau yng Nghymru. Argymhellodd y dylid cydnabod dwy ddinas-ranbarth – un yn y De-ddwyrain ac un arall ym Mae Abertawe.

5. Ni ddaeth y Grŵp o hyd i ddigon o dystiolaeth o blaid sefydlu Dinas-ranbarth mewn unrhyw ran arall o Gymru. Serch hynny, roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ystyried y posibilrwydd o ranbarth economaidd trawsffiniol yn y Gogledd-ddwyrain. Er mwyn sicrhau bod pob darn o dystiolaeth wedi ei astudio ac er mwyn ystyried materion ehangach megis potensial economaidd y rhanbarth a rôl Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, comisiynais Gadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar hyn unwaith eto yn fanylach.

6. O safbwynt rhannau eraill o Gymru, rwyf yn rhoi dulliau datblygu economaidd mwy priodol ar waith, megis Ardaloedd Menter, Ardaloedd Twf Lleol, yn ogystal â gweithgareddau datblygu busnes ledled Cymru.

7. Roedd yr argymhellion eraill yn canolbwyntio ar y strwythurau i gefnogi'r dull Dinas-ranbarthau yng Nghymru. Roeddent yn cynnwys nifer o argymhellion ynglŷn â gweithio'n well ar y cyd, yn ofodol ac yn rhanbarthol, gan gynnwys creu haenau cynllunio strategol rhanbarthol a dull rhanbarthol strategol o weithredu ym maes tai.

8. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio hefyd ar addysg a sgiliau ac, i'r un perwyl â'r argymhellion eraill, yn galw am ddulliau rhanbarthol mwy strategol o edrych ar fylchau mewn sgiliau. Roedd yn amlygu pwysigrwydd y rolau sydd gan sefydliadau

addysg uwch i'w chwarae yn y Dinas-ranbarthau ac yn nodi bod yn rhaid meithrin cysylltiadau â hwy.

9. Roedd un o'r argymhellion yn nodi y dylid sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o'r dull Dinas-ranbarthau, ac yn awgrymu y gallai deddfwriaeth Gymreig arfaethedig gynnig cyfle i wneud hynny.

10. Roedd nifer bach o argymhellion ar drafnidiaeth yn y De-ddwyrain ac ym Mae Abertawe, a hynny o safbwynt trafnidiaeth gyhoeddus a gwelliannau strategol i ffyrdd er mwyn cefnogi Dinas-ranbarthau.

11. Canolbwyntiai rhai o'r argymhellion ar gyllid, ac yn neilltuol ar bwysigrwydd arian oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd ac ar fanteisio ar y cylch ariannu nesaf er mwyn cefnogi'r Dinas-ranbarthau, a fyddai hefyd yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn dadlau o blaid mwy o hyblygrwydd fel y bo modd cefnogi cysylltedd yng Nghymru. Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a rhoi pwysau arni i sicrhau pwerau benthyca ac i gynyddu cyfanswm y gwariant cyfalaf sydd ar gael.

12. Yn olaf, roedd yr adroddiad yn argymell bod angen i Lywodraeth Cymru roi arweiniad, ac yn awgrymu hefyd y dylid penodi Gweinidog dros Ddinas-ranbarthau a llunio polisi a rhaglen ar gyfer y dull Dinas-ranbarthau, ac ymrwymo i'r dull hwnnw yn yr hirdymor. Argymhellwyd hefyd y dylid sefydlu sefydliad ymchwil economaidd i baratoi data economaidd rhanbarthol.

**Ar ôl Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol**

13. Cynheliais drafodaeth ar Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-ranbarthau yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Hydref 2012. Yn ystod y drafodaeth honno, llwyddwyd i gael cefnogaeth drawsbleidiol gyffredinol i'r dull Dinas-ranbarthau. Cafwyd cryn dipyn o gefnogaeth gan randdeiliaid eraill hefyd, gan gynnwys Cyngor Adnewyddu'r Economi.

14. Comisiynais y Dr Elizabeth Haywood i wneud darn byr o waith i ymchwilio ymhellach i'r cyfleoedd datblygu economaidd yn y Gogledd-ddwyrain ac i'r materion economaidd trawsffiniol. Cynhaliodd y Dr Haywood gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Aelodau Cynulliad, aelodau o'r gymuned fusnes ac eraill, gan gynnwys digwyddiad a gadeiriwyd gan Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy.

15. Cwblhaodd y Dr Haywood 'Adolygiad o Economi Trawsffiniol Rhanbarth Dyfrdwy – y Camau Nesaf' ym mis Mawrth 2013. Roedd yr adolygiad terfynol hwn yn canolbwyntio ar gryfhau cysylltiadau trawsffiniol yn rhanbarth y Ddyfrdwy, rôl Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, a'r manteision economaidd posibl.

16. Gwnaeth yr adroddiad bedwar argymhelliad a oedd wedi'u targedu'n bennaf at rôl Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, ei haelodaeth, ei swyddogaeth a'i phresenoldeb rhanbarthol strategol. Nododd yr adroddiad hefyd y dylid sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig ynghylch cynllunio trafnidiaeth.

17. Wrth gyhoeddi'r adroddiad, euthum ati ar unwaith, rhwng mis Mawrth a mis Mai 2013, i geisio barn am y canfyddiadau sydd ynddo. Cafwyd naw ymateb ac fe'u rhoddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Ysgrifennais hefyd at Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y Deyrnas Unedig dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau pan gyhoeddwyd yr adroddiad.

18. O ran hysbysu'r Aelodau ynglŷn â chynnydd mwy cyffredinol gyda'r Dinas-ranbarthau arfaethedig, darperais ddatganiad ysgrifenedig am y camau nesaf ar 13 Rhagfyr 2012. Ynddo, nodwyd y trefniadau ar gyfer symud yr agenda yn ei blaen yn y ddwy Ddinas-ranbarth. Pwrpas y rhain oedd annog dull integredig o weithredu a hyrwyddo'r cydweithio sydd ei angen i sicrhau llwyddiant y Dinas-ranbarthau yn yr hirdymor.

19. Sefydlais grŵp gorchwyl a gorffen bychan ar gyfer y naill a'r llall, wedi ei gadeirio ar y cyd gan Arweinydd Awdurdod Lleol ac uwch gynrychiolydd o'r sector breifat i sicrhau momentwm yn ystod y misoedd cyntaf.

**Y Datblygiadau Diweddaraf**

20. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ddwy Ddinas-ranbarth, cytunais fod angen symud ymlaen i gyfnod newydd. Yn dilyn argymhellion gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dinas-ranbarth Bae Abertawe, cyhoeddais, mewn digwyddiad lansio ar gyfer Strategaeth Adfywio Economaidd y rhanbarth ar 18 Gorffennaf 2013, fod Bwrdd yn cael ei sefydlu ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

21. Bydd y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth ar lefel Arweinydd o'r pedwar awdurdod lleol yn y rhanbarth, yn ogystal â phedwar cynrychiolydd o'r gymuned fusnes a dau o faes Addysg Uwch. Gofynnais i'r Cynghorydd David Phillips, Arweinydd Cyngor Abertawe fod yn Gadeirydd, ac i'r Cynghorydd Meryl Gravell, Aelod Gweithredol o Fwrdd Adfywio a Hamdden Cyngor Sir Caerfyrddin i fod yn Ddirprwy Gadeirydd. Gofynnais hefyd am enwebiadau ar gyfer y pedwar cynrychiolydd o'r sector preifat ac ar gyfer y ddau gynrychiolydd o faes Addysg Uwch.

22. Rôl y Bwrdd fydd arwain, pennu cyfeiriad a chadw golwg ar y Strategaeth Adfywio Economaidd ar gyfer y rhanbarth.

23. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried a blaenoriaethu prosiectau allweddol a all drawsnewid economi'r Ddinas-ranbarth. Gallai fod yn briodol i rai ohonynt gael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, eraill drwy'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, yr awdurdodau lleol neu'r sector preifat.

24. Rwyf bellach yn ystyried y trefniadau ar gyfer Dinas-ranbarth y De-ddwyrain a byddaf yn rhyddhau rhagor o fanylion maes o law.